Cofnodion cyfarfod **BWRDD YR YMDDIRIEDOLWYR** a gynhaliwyd ar 11 Medi 2014 yn Ystafell y Llys, Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd

Nodiadau	**Gweithredu**
YN BRESENNOL: Elisabeth Elias, Llywydd, (yn y Gadair); Haydn Edwards, Is-lywydd; Peter Morgan, Trysorydd; Laurie Pavelin; Carol Bell; Glenda Jones; Gareth Wyn Jones; Victoria Provis; Tony Atkins; Christina Macaulay; Carole-Anne Davies; Miriam Griffiths; Robert Pickard; David Anderson, Cyfarwyddwr Cyffredinol; Mark Richards, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol/Cyfarwyddwr Gweithredu; Neil Wicks, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol; Janice Lane, Cyfarwyddwr Addysg, Arddangosfeydd a Chyfryngau Digidol; Judith Ingram, Pennaeth Polisi a Chynllunio ac Elaine Cabuts, Ysgrifennydd yr Amgueddfa. **YN BRESENNOL**: Kay Andrews, Darpar Ymddiriedolwr; Linda Tomos (CyMAL), Rosanna Harrison, mentorai AMA yn mynychu fel arsylwr.	
1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU 1.1 Croesawyd yr aelodau, yr Ymddiriedolwr newydd Carol Bell, y Darpar Ymddiriedolwr Kay Andrews (o 1 Rhagfyr 2014 ymlaen), Linda Tomos a'r arsylwr Rosanna Harrison i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan David Vokes, Keshav Singhal, Hywel Ceri Jones (Ymddiriedolwr newydd ei benodi), Lesley-Anne Kerr (CyMAL), a Peter Wakelin, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil. 1.2 Roedd y Llywydd am gofnodi'r ffaith mai dyma'r cyfarfod cyntaf ers marwolaeth yr Ymddiriedolwr Jonathan Osmond, a bod yr Ymddiriedolwyr yn dymuno cydnabod eu parch, eu hedmygedd a'u diolch am yr amser a roddodd i'r Amgueddfa, yn enwedig ei rôl fel Cadeirydd Project Creu Hanes yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru.	
Yn Sesiwn Gaeedig y cyfarfod, bu'r Bwrdd yn trafod a chael eu briffio am benodi Ymddiriedolwyr, y Rhaglen Newid, cynllunio ariannol a sganio'r gorwel. ***Yna agorwyd y cyfarfod i'r cyhoedd ond nid oedd neb o'r cyhoedd yn bresennol.***	
2 COFNODION 5.1 Penderfynwyd: Bod Cofnodion cyfarfod y Bwrdd ar 19 Mehefin 2014 yn cael eu cymeradwyo, yn amodol ar gywiro eitem 5.2.4.3: 'Yn unol â hynny, a bod Glenda Jones yn cael ei phenodi i Fwrdd AGGA Cyf., a bod Laurie Pavelin yn cael ei benodi i Fwrdd AGGA Cyf. o 1 Rhagfyr 2014 ymlaen yn dilyn ymddeoliad Peter Morgan ar 30 Tachwedd 2014, a bod Chris Jackson yn cael	

DRAFT

Nodiadau	Gweithredu
ei benodi'n Gadeirydd Bwrdd Mentrau AOCC Cyf.'.	
3 MATERION YN CODI 3.1 Nid oedd unrhyw faterion yn codi, gan fod yr holl eitemau ar agenda'r cyfarfod.	
4 LLYWODRAETHU **4.1 Materion ffurfiol blynyddol** **4.1.1 Cylch gorchwyl** 4.1.1.1 Derbyniwyd: Y Cylch Gorchwyl gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol. 4.1.1.2 Adroddwyd: Bod y Cyfarwyddwr Cyffredinol wedi cynnal adolygiad i sicrhau cydraddoldeb ar draws yr amryw Gylchoedd Gorchwyl. 4.1.1.3 Penderfynwyd: Bod yr holl Gylchoedd Gorchwyl yn cael eu hadolygu ymhellach i greu mwy o gysondeb lle bo'n briodol, gan nodi natur unigryw'r Bwrdd Datblygu a'r Grŵp Cynghori ar Gelf; bod y broses o nodi'r aelodaeth yn cael ei chynnal drwy ymgynghori ag aelodau'r grŵp a'r Llywydd sy'n cyflwyno argymhellion i'r Bwrdd; cydnabod y bydd angen cyflwyno newidiadau pellach i'r Cylchoedd Gorchwyl amrywiol wrth i waith pob grŵp ddatblygu. Hefyd y canlynol: 4.1.1.3.1 Pwyllgor Penodiadau a Chydnabyddiaethau Ariannol Cymeradwywyd. Victoria Provis i gyfrannu at newidiadau'r dyfodol. 4.1.1.3.2 Pwyllgor Adolygu Perfformiad Cymeradwywyd. 4.1.1.3.3 Pwyllgor Archwilio Cymeradwywyd, yn amodol ar newid y pwynt bwled olaf i: 'sicrwydd yn ymwneud â gofynion llywodraethu corfforaethol y sefydliad gan gynnwys Datganiad Llywodraethu'. 4.1.1.3.4 Mentrau AOCC Cyf. Cymeradwywyd, yn amodol ar ystyried y Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu i weld a oes angen rhagor o Ymddiriedolwyr, er mwyn sicrhau cysondeb â chynrychiolydd ar bob grŵp. 4.1.1.3.5 Grŵp Cynghori ar Gelf Cymeradwywyd. 4.1.1.3.6 Grŵp Comisiynu Project Sain Ffagan Cymeradwywyd. 4.1.1.3.7 Grŵp Comisiynu Project Amgueddfa Genedlaethol y Gwyddorau Naturiol Cymeradwywyd yn amodol ar newid nifer yr Ymddiriedolwyr sy'n ofynnol i greu cworwm i dri. 4.1.1.3.8 Bwrdd Datblygu Cymeradwywyd. 4.1.1.3.9 Pwyllgor Cynghori ar Ymchwil Cymeradwywyd, yn amodol ar un cywiriad	**Cyfarwyddwr Cyffredinol** **Llywydd**

DRAFT

Nodiadau	Gweithredu
yn nheitl y Cyfarwyddwr i: 'Cyfarwyddwr Addysg, Arddangosfeydd a Chyfryngau Digidol', a bod dyletswydd i: 'adrodd i'r Bwrdd yn rheolaidd' yn cael ei chynnwys.	
4.1.2 Aelodaeth o Grwpiau / Pwyllgorau	
4.1.2.1 Derbyniwyd: Rhestr ddiwygiedig o'r aelodau gan y Llywydd.	
4.1.2.2 Adroddwyd: Bod y Llywydd yn argymell nifer o newidiadau.	**Ysgrifennydd yr Amgueddfa**
4.1.2.3 Penderfynwyd: Yn unol â hynny a bod Laurie Pavelin yn cael ei benodi'n Gadeirydd y Pwyllgor Adolygu Perfformiad o 1 Rhagfyr 2014 ymlaen; bod Laurie Pavelin a Kay Andrews yn cael eu penodi'n aelodau o Grŵp Comisiynu Project Sain Ffagan o 1 Rhagfyr 2014 ymlaen; a bod Glenda Jones yn cael ei phenodi i'r Pwyllgor Penodiadau a Chydnabyddiaeth Ariannol ar unwaith.	
4.1.3 Adroddiad Blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor Adolygu Perfformiad 2013/14	
4.1.3.1 Derbyniwyd: Adroddiad gan y Trysorydd.	**Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol/ Cyfarwyddwr Gweithredu**
4.1.3.2 Adroddwyd: Bod yr adroddiad wedi'i gyflwyno gyda sêl bendith y Pwyllgor Adolygu Perfformiad fel cofnod teg a chywir o weithgareddau'r Pwyllgor am y flwyddyn.	
4.1.3.3 Nododd yr Aelodau fod cofnodion y Bwrdd Datblygu wedi'u cyflwyno i'r Pwyllgor a diolchodd y Llywydd i'r Trysorydd am ei stiwardiaeth.	
4.1.3.4 Penderfynwyd: Yn unol â hynny.	
4.1.4 Penodi Trysorydd	
4.1.5 Adroddwyd Bod y Llywydd wedi nodi bod Laurie Pavelin wedi'i benodi'n Ddarpar Drysorydd, yn rhan o'r broses i'w benodi yn Ymddiriedolwr. Mae'r Trysorydd yn cael ei benodi gan y Bwrdd, a gofynnwyd i'r Bwrdd gymeradwyo hyn.	
4.1.6 Penderfynwyd: Yn unol â hynny, a bod Laurie Pavelin yn Drysorydd o 1 Rhagfyr 2014 ymlaen.	**Ysgrifennydd yr Amgueddfa**
4.1.7 Dyddiadau Cyfarfod 2015	
4.1.8 Derbyniwyd: Amserlen o ddyddiadau cyfarfodydd gan Ysgrifennydd yr Amgueddfa.	

DRAFT

Nodiadau	Gweithredu
	Ysgrifennydd yr Amgueddfa
5 Y WELEDIGAETH CYN YMGYNGHORI 5.1 Adroddwyd: Bod y Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Pennaeth Polisi a Chynllunio wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau ynglŷn â'r broses o drafod y Weledigaeth arfaethedig gyda'r staff, gan gyfeirio at y papurau sydd eisoes wedi'u dosbarthu. 5.2 Nododd yr Aelodau amseriad y broses ymgysylltu â staff. Mae Datganiad a Diben y Weledigaeth yn darparu'r fframwaith lle gallai staff lywio a pherchnogi'r amcanion. Yn dilyn proses ymgynghori gyhoeddus, byddai'r Weledigaeth yn cael ei chadarnhau yn ystod gwanwyn 2015, er bydd yr elfennau newydd yn dechrau ymddangos yn y dogfennau cynllunio cyn hynny, oherwydd amseriad	**Ysgrifennydd yr Amgueddfa**

DRAFT

Nodiadau	Gweithredu
y broses gynllunio. 5.3 Penderfynwyd: Yn unol â hynny, a bod gwerthoedd i'w datblygu a'u blaenoriaethu, gyda naratif drafft i gyd-fynd â nhw, a bod y Bwrdd yn derbyn dogfen ymgynghoriad cyhoeddus ddrafft i'w chymeradwyo yng nghyfarfod mis Rhagfyr, yn ogystal â rhywfaint o wybodaeth gefndirol sy'n cyflwyno'r Weledigaeth yng nghyd-destun cyffredinol Amgueddfa Cymru.	**Cyfarwyddwr Cyffredinol**
6 ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR CYFFREDINOL, BRIFFIAD CHWARTEROL CHWARTER 1, MATERION CYFREDOL 6.1 Derbyniwyd: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol. 6.2 Adroddwyd: Bod y Pennaeth Polisi a Chynllunio yn nodi'r cynnydd da a wnaed yn ystod Chwarter cynta'r flwyddyn. Mae'r ffigurau addysg ffurfiol yn well na'r targed a'r ffigurau addysg anffurfiol fymryn islaw'r targed. Bydd y Cyfarwyddwr Addysg, Arddangosfeydd a Chyfryngau Digidol yn parhau i'w hadolygu. 6.3 Diolchodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol i Lywodraeth Cymru am eu cefnogaeth i gynhadledd Cymdeithas yr Amgueddfeydd ar 9 a 10 Hydref 2014. Bydd y gynhadledd yn croesawu'r nifer fwyaf erioed o ymwelwyr tramor. Yn sgil gwahoddiad y Swyddfa Dramor a Chymanwlad, ymwelodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol a Cheidwad Hanes ac Archaeoleg yr Amgueddfa â Phatagonia i gyflwyno adroddiad *Museums Change Lives* Cymdeithas yr Amgueddfeydd. Lluniwyd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth â Gweinyddiaeth Ddiwylliannol Chubut, dan fantell Llywodraeth Cymru. Cafodd yr ymweliad groeso da, a nodwyd cysylltiadau ag arddangosfeydd a gweithgareddau ledled Amgueddfa Cymru. Daeth y Gweinidog Diwylliant draw i'r digwyddiad a chyfrannu ato. Croesawodd Linda Tomos gefnogaeth yr Amgueddfa. 6.4 Penderfynwyd: Yn unol â hynny, a bod adroddiadau'r dyfodol ar ffigurau	

DRAFT

Nodiadau	Gweithredu
ymwelwyr yn cynnwys, lle bo'n briodol, naratif i gefnogi'r ystadegau. Bod yr Amgueddfa a CyMAL yn parhau i ystyried y cysylltiadau posibl a sut y gallai'r Amgueddfa helpu i gydlynu dathliadau 150 ers sefydlu'r wladfa ym Mhatagonia yn 2015. ***Gadawodd Christina Macaulay y cyfarfod ar y pwynt hwn.***	Cyfarwyddwr Cyffredinol/ CyMAL
7 PROJECT SAIN FFAGAN AMGUEDDFA WERIN CYMRU – ADRODDIAD CYNNYDD 7.1 Derbyniwyd: Adroddiad gan y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol/Cyfarwyddwr Gweithredu. 7.2 Adroddwyd: Bod y targed arbedion o £1.4m wedi'i gytuno mewn egwyddor, a bod disgwyl i'r gwaith ddechrau ar y safle gyda chytundeb ar y rhan fwyaf o'r arbedion. Roedd £250,000 o arbedion i'w cael drwy beirianneg gwerth ychwanegol, cyn ymrwymo i gytundeb. Mae'r gwaith eisoes wedi cychwyn ar y fynedfa dros dro, a'r ddarpariaeth arlwyo yn cael ei chynnal yno dros yr wythnosau nesaf. Croesawyd 25,000 o ymwelwyr i'r ŵyl fwyd. Roedd Grŵp Comisiynu'r Project wedi cyfarfod yn ddiweddar gan drafod enw'r amgueddfa. Roedd cynllun yr arddangosfa'n parhau er mwyn ein galluogi i gwblhau'r broses o gwblhau Cam E. 7.3 Penderfynwyd: Yn unol â hynny.	

DRAFT

Nodiadau	Gweithredu
8 Y DIWEDDARAF AM YNNI 8.1 Derbyniwyd: Adroddiad gan y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol/Cyfarwyddwr Gweithredu. 8.2 Adroddwyd: Bod yr Aelodau wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddefnyddio ac arbed ynni. Nod yr Amgueddfa yw cyrraedd safon ragorol BREEAM ar gyfer Gweithdy yn Sain Ffagan, a sefydlu ffordd gost-effeithiol o greu ystâd werdd. 8.3 Penderfynwyd: Yn unol â hynny, a bod adroddiad ar gostau'n cael ei gyflwyno i'r Trysorydd a'r Darpar Drysorydd.	Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol/ Cyfarwyddwr Gweithredu
9 MATERION CASGLIADAU 9.1 **Adroddiad Gweithgareddau Ymchwil a Chasgliadau Gorffennaf – Medi 2014** 9.1.1 Derbyniwyd: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil. 9.1.2 Adroddwyd: Yn unol â hynny, bod y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol/Cyfarwyddwr Gweithredu wedi cyflwyno adroddiad ar ran y Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil. 9.1.3 Nododd yr Aelodau mai teuluoedd, pobl ifanc ac ymwelwyr yw'r cynulleidfaoedd â blaenoriaeth yn gorfforaethol, a'u bod yn cael eu mireinio ymhellach yn ôl safleoedd ac adrannau. Byddai angen i anghenion cynulleidfaoedd fod yn rhan flaenllaw o benderfyniadau sy'n ymwneud â strategaethau casgliadau. Mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol yn parhau i fonitro cyllid ar gyfer gweithgareddau rhyngwladol. 9.1.4 Penderfynwyd: Yn unol â hynny. 9.2 **Benthyciadau rhyngwladol** 9.2.1 Derbyniwyd: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil. 9.2.2 Adroddwyd: Bod y Bwrdd wedi cael cais i ystyried pum argymhelliad gan y Grŵp Cynghori ar Gelf o ran derbyn a gwrthod benthyciadau tramor. 9.2.3 Penderfynwyd: Yn unol â hynny a bod argymhellion yn cael eu cymeradwyo.	

DRAFT

Nodiadau	Gweithredu
9.3 **Dad-dderbyn (dileu o'r casgliadau)** 9.3.1 Derbyniwyd: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil. 9.3.2 Adroddwyd: Bod yr Aelodau wedi cael cais i gymeradwyo dileu eitemau o fewn y casgliad y gof gwyn. 9.3.3 Penderfynwyd: Yn unol â hynny, yn amodol ar gysylltu â Chyfeillion yr Amgueddfa i gadarnhau eu bod yn fodlon.	Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil / Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol/ Cyfarwyddwr Gweithredu

DRAFT

Nodiadau	Gweithredu
10 MATERION PWYLLGOR 10.1 Derbyniwyd a Nodwyd: Cofnodion drafft: i. Y Pwyllgor Penodiadau a Chydnabyddiaeth Ariannol 3 Mehefin 2014 ii. Grŵp Comisiynu Project yr Amgueddfa Genedlaethol y Gwyddorau Naturiol Mehefin 2014 iii. Mentrau AOCC Cyf. 24 Mehefin 2014 iv. Grŵp Comisiynu Project Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru (1) 24 Mehefin 2014 (2) 2 Medi 2014 v. Pwyllgor Archwilio 15 Gorffennaf 2014 vi. Pwyllgor Adolygu Perfformiad 15 Gorffennaf 2014 vii. Cydbwyllgor Adolygu Perfformiad ac Archwilio 15 Gorffennaf 2014 viii. Ymddiriedolwyr Pensiwn 16 Gorffennaf 2014 ix. Grŵp Adolygu Holiadur Hunanwerthuso'r Bwrdd 16 Gorffennaf 2014 10.2 Adroddwyd: Yn achos Grŵp Comisiynu Project yr Amgueddfa Genedlaethol y Gwyddorau Naturiol, nododd yr Aelodau fod rhaglen o gyfarfodydd yn parhau gyda Chyngor Dinas Caerdydd. Cofnodwyd dechrau da i'r flwyddyn o safbwynt Mentrau AOCC Cyf. O ran Grŵp Comisiynu Project Sain Ffagan, cafodd cyfarfod mis Mehefin ei gadeirio gan y Llywydd a chyfarfod mis Medi ei gadeirio gan yr Is-lywydd, sydd bellach wedi'i benodi'n Gadeirydd parhaol y grŵp. Yn achos y Pwyllgor Adolygu Perfformiad, bod dau o feysydd y Datganiad Llywodraethu na chawsant eu trafod gan y pwyllgor cyn hyn (Polisi Amddiffyn Plant a Chod Ymarfer yr Amgueddfa ar Gŵynion) bellach wedi'u trafod, ac y gallai'r Amgueddfa fod yn hyderus eu bod yn cael eu rheoli'n effeithiol. O ran yr Ymddiriedolwyr Pensiwn, nododd yr Aelodau y ddibyniaeth ar Warant y Goron mewn perthynas â rhwymedigaethau'r Cynllun. Petai'r warant yn cael ei diddymu, byddai'n rhaid i'r Amgueddfa ystyried dulliau eraill o leihau'r bwlch. Diolchodd yr Is-lywydd i Gadeirydd yr Ymddiriedolwr Pensiwn am ei waith gyda'r gweithgor a sefydlwyd i ystyried penodi isgontractwyr, gweinyddiaeth y cynllun a'r buddsoddiadau a'r gwasanaeth actiwaraidd. O ran grŵp adolygu holiadur hunanwerthuso'r Bwrdd, atgoffodd y Llywydd yr Aelodau o'r gwahoddiad iddynt fynychu cyfarfodydd o'r Pwyllgor Adolygu Perfformiad. 10.3 Penderfynwyd: Yn unol â hynny, ac yng nghyswllt adroddiad a chofnodion Cadeirydd y Pwyllgor Adolygu Perfformiad, mai £27.136 miliwn yw cyllideb gyffredinol project Sain Ffagan bellach. Petai'r aelodau am fynychu'r Pwyllgor Adolygu Perfformiad, dylent roi gwybod i Ysgrifennydd yr Amgueddfa er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn y papurau perthnasol. Dylai adroddiad naratif ar gyfer holiadur hunanwerthuso'r Bwrdd gael ei gynnwys yn adroddiad i'r Bwrdd flwyddyn nesaf.	

DRAFT

Nodiadau	Gweithredu
	Ysgrifennydd yr Amgueddfa, / Ymddiriedolwyr
11 UNRHYW FATER ARALL 11.1 **Gweinidog Tlodi Plant – Vaughan Gethin** 11.1.1 Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol y byddai'r Gweinidog yn dod i Sain Ffagan ar 8 Hydref 2014, ar ddiwrnod cyntaf Cynhadledd Cymdeithas yr Amgueddfeydd. 11.2 **Ffotograffiaeth mewn orielau** 11.2.1 Holodd Tony Atkins, Ymddiriedolwr, am bolisi'r Amgueddfa ar dynnu lluniau mewn orielau. Esboniodd y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol/Cyfarwyddwr Gweithredu i'r Aelodau am bolisi'r Amgueddfa, yn enwedig o ran hawlfraint, a bod gweithgarwch yn cael ei fonitro. 11.3 **Ymddeoliad Peter Morgan yn Drysorydd yr Amgueddfa** 11.3.1 Roedd y Llywydd yn dymuno cofnodi gwerthfawrogiad a diolchiadau'r Bwrdd i Peter Morgan am ei gyfraniad aruthrol i'r Amgueddfa yn ystod ei gyfnod yn y swydd. Roedd digwyddiad priodol i nodi'i lwyddiannau'n cael ei drefnu, ond cofnodwyd mai hwn oedd ei gyfarfod olaf o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr. Diolchodd Peter Morgan i'r staff a'i gyd-Ymddiriedolwyr am eu cymorth a chroesawodd Laurie Pavelin i'r Bwrdd fel ei olynydd.	
12 AGENDA'R BWRDD STRATEGOL 12.1 Nododd yr Aelodau'r eitemau i'w trafod yng nghyfarfod y Bwrdd ar 11 Rhagfyr 2014.	
DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF: <u>Penderfynwyd</u>: Y bydd cyfarfod nesaf Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn dechrau am 9am, 11 Rhagfyr 2014, yn Ystafell y Llys, Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd.	

DRAFT

DRAFT